Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 28 Chwefror 2019 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 22 Chwefror 2019.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Dianne Rees (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

117 : DATGANIAD CADEIRYDD Y CYNGOR

Agorodd Cadeirydd y Cyngor y cyfarfod gyda datganiad personol:-

*Rwy'n gwneud datganiad byr o ganlyniad i'r ffordd yr oedd Aelodau wedi ymddwyn yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, nad oedd yn glod i'r Cyngor.*

*Yn dilyn y cyfarfod, ymddiheurodd y Cynghorydd Goodway'n raslon am ddiystyru awdurdod y Cadeirydd.*

*Nid wyf yn disgwyl y bydd yr ymddygiad hwnnw'n digwydd eto yn y cyfarfod hwn. Mae cyfarfodydd yn cael eu recordio ac nid yw'n adlewyrchu'n dda ar enw da'r Cyngor.*

*Disgwyliaf i bob Cynghorydd, waeth pa mor ddibrofiad, ac yn enwedig y Cynghorwyr profiadol, a ddylai wybod yn well, i barchu awdurdod y Cadeirydd.*

*Os bydd y Cadeirydd yn galw'r cyfarfod i drefn neu'n sefyll, rhaid i unrhyw Aelod sy'n siarad ar y pryd stopio ac eistedd.*

*Os bydd y Cadeirydd yn galw i drefn unrhyw Aelod, dylai'r Aelod hwnnw barchu awdurdod y Cadeirydd.*

*Dylem gynnal busnes y cyfarfod mewn ffordd gwrtais a threfnus fel ein bod yn delio â'r busnes wrth law'n effeithlon.*

118 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Burke-Davies, Congreve, Davies a Molik.

## 119 : TEYRNGEDAU I'R CYNGHORYDD JIM MURPHY

Arweiniodd yr Arglwydd Faer deyrngedau i'r diweddar Gynghorydd Jim Murphy, ffrind a chydweithiwr a fu farw ar 1 Rhagfyr 2018. Yn ddyn tyner yn y Cyngor a gynrychiolodd ward Trelái, roedd yn ddyn llawn hiwmor a roddodd cyngor a chefnogaeth i gydweithwyr ar draws y Siambr.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol y Cynghorydd Robson (Ceidwadwyr), y Cynghorydd Boyle (Democratiaid Rhyddfrydol) a'r Cynghorydd Keith Parry (Plaid Cymru) ynghyd â'i gyd-Aelodau Ward y cynghorwyr Russell Goodway a Susan Goddard, mewn teyrnged i gyfaill ffyddlon, dyn o werthoedd ac egwyddorion cryf; sosialydd ac undebwr llafur cadarn a dyn teulu gofalgar. Byddai'r Cyngor a'r gymuned a oedd yn ei chynrychioli mor frwd dros nifer o flynyddoedd yn wir colli'r Cynghorydd Murphy.

## 120 : ISETHOLIAD TRELÁI

Croesawodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Andrea Gibson i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor yn dilyn yr isetholiad ar 21 Chwefror 2019.

Diolchodd y Cynghorydd Gibson i bawb am y geiriau caredig a thalodd deyrnged i'r Cynghorydd Murphy. Roedd yn cydnabod bod ganddi esgidiau mawr i'w dilyn yn ei rôl fel Cynghorydd Ward ar gyfer Trelái, a'i bod wedi cymryd arni i gynrychioli dinasyddion Trelái hyd eithaf ei gallu, ac roedd yn edrych ymlaen at wneud gwahaniaeth i'r gymuned yr etholwyd hi i'w gwasanaethu.

## 121 : YMDDEOLIAD CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU

Talodd yr Arglwydd Faer deyrnged i Mrs Christine Salter, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cyngor a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn ymddeol o'r awdurdod ar 15 Mawrth 2019 ar ôl gwasanaeth rhagorol am 45 mlynedd. Hwn oedd ei chyfarfod olaf o ran Gosod y Cyllid.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol y Cynghorydd Robson (Ceidwadwyr), y Cynghorydd Boyle (Democratiaid Rhyddfrydol) a'r Cynghorydd Keith Parry (Plaid Cymru) a'r Cynghorydd Bowden (Aelod Annibynnol) a oedd oll yn cydnabod y gwasanaeth a'r diwydrwydd rhagorol a ddarparodd Christine i'r Cyngor drwy gydol ei gyrfa ac yn arbennig yn ei rôl fel y Swyddog Adran 151 Statudol. Dymunwyd y gorau i Christine ar gyfer y dyfodol.

## 122 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag eitemau 12 a 13

| Cynghorydd | Math o Fuddiant | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Phil Bale | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Rodney Berman | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Joseph Boyle | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Jayne Cowan | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Daniel De'ath | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Sean Driscoll | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Lisa Ford | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Russell Goodway | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Gavin Hill-John | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Philippa Hill-John | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Nigel Howells | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Lyn Hudson | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Michael Jones-Pritchard | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Neil McEvoy | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro ond nid yw'r cyfrif pensiwn yn weithredol. |
| Y Cynghorydd Roderick McKerlich | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Sarah Merry | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Michael Michael | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Daniel Naughton | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Cynghorydd Oliver Owen | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Thomas Parkhill | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Michael Phillips | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Dianne Rees | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Adrian Robson | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Emma Sandrey | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Kanaya Singh | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Rhys Taylor | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Graham Thomas | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd David Walker | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Caro Wild | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Joel Williams | Buddiant Personol | Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Ashley Lister | Buddiant Personol | Fel Aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro fel un o gyflogeion y Cyngor ond nid yw'r cyfrif pensiwn yn weithredol. |
| Y Cynghorydd Dilwar Ali | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Gabalfa |
| Y Cynghorydd Dilwar Ali | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Hawthorn |
| Y Cynghorydd Phil Bale | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Llanisien |
| Y Cynghorydd Rodney Berman | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Marlborough |
| Y Cynghorydd Rodney Berman | Buddiant Personol | Ysgol y Berllan Deg |
| Y Cynghorydd Joe Boyle | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Howardian |
| Y Cynghorydd Joe Boyle | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Springwood |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Millbank |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Buddiant Personol | Campws Dysgu'r Gorllewin |
| Y Cynghorydd Lee Bridgeman | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd y Dwyrain |
| Y Cynghorydd Jennifer Burke-Davies | Buddiant Personol | Ysgol Glan Ceubal |
| Y Cynghorydd Joseph Carter | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans |
| Y Cynghorydd Joseph Carter | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Llanedern |
| Y Cynghorydd Wendy Congreve | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Rhydypenau |
| Y Cynghorydd Jayne Cowan | Buddiant Personol | Ysgol Greenhill |
| Y Cynghorydd Stephen Cunnah | Buddiant Personol | Ysgol Gymraeg Pwll Coch |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Daniel De'Ath | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Albany |
| Y Cynghorydd Bob Derbyshire | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Tredelerch |
| Y Cynghorydd Sean Driscoll | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Danescourt |
| Y Cynghorydd Saeed Ebrahim | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Mount Stuart |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Radnor |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Buddiant Personol | Ysgol Gymraeg Treganna |
| Y Cynghorydd Susan Goddard | Buddiant Personol | Canolfan Blant Treláí a Chaerau |
| Y Cynghorydd Susan Goddard | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis |
| Y Cynghorydd Russell Goodway | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd |
| Y Cynghorydd Iona Gordon | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Severn |
| Y Cynghorydd Jane Henshaw | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Baden Powell |
| Y Cynghorydd Gavin Hill-John | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Pentyrch |
| Y Cynghorydd Graham Hinchey | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Llwynbedw |
| Y Cynghorydd Graham Hinchey | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Ton yr Ywen |
| Y Cynghorydd Nigel Howells | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Adamsdown |
| Y Cynghorydd Nigel Howells | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Stacey |
| Y Cynghorydd Lyn Hudson | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Ton yr Ywen |
| Y Cynghorydd Owen Jones | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Adamsdown |
| Cynghorydd Jones-Pritchard | Buddiant Personol | Y Ffederasiwn 'The Pear Tree' |
| Y Cynghorydd John Lancaster | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Llanisien |
| Y Cynghorydd Susan Lent | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Howardian |
| Y Cynghorydd Susan Lent | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Parc y Rhath |
| Y Cynghorydd Ashley Lister | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Grangetown |
| Y Cynghorydd Mary McGarry | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Albany |
| Y Cynghorydd Mary McGarry | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Gatholig San Pedr |
| Y Cynghorydd Roderick McKerlich | Buddiant Personol | Llywodraethwr Ysgol ALI ar gyfer Ysgol Gyfun Radur |
| Y Cynghorydd Roderick McKerlich | Buddiant Personol | Llywodraethwr Ysgol ALI ar gyfer Ysgol Gynradd Radur |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant |
| Y Cynghorydd Oliver Owen | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Ton yr Ywen |
| Y Cynghorydd Jackie Parry | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cadog |
| Y Cynghorydd Ramesh Patel | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| Y Cynghorydd Ramesh Patel | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Lansdowne |
| Y Cynghorydd Mike Phillips | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd |
| Y Cynghorydd Dianne Rees | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llaneirwg |
| Y Cynghorydd Emma Sandrey | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Springwood |
| Y Cynghorydd Kanaya Singh | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Kitchener |
| Y Cynghorydd Ed Stubbs | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Moorland |
| Y Cynghorydd Ed Stubbs | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Willows |
| Y Cynghorydd Rhys Taylor | Buddiant Personol | Ysgol Mynydd Bychan |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Willows |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Ysgol Glan Morfa |
| Y Cynghorydd Lynda Thorne | Buddiant Personol | Ysgol Feithrin Grangetown |
| Y Cynghorydd Lynda Thorne | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Parc Ninian |
| Y Cynghorydd David Walker | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Llys-faen |
| Y Cynghorydd Christopher Weaver | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Cathays |
| Y Cynghorydd Christopher Weaver | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Gladstone |
| Y Cynghorydd Caro Wild | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Kitchener |
| Y Cynghorydd Joel Williams | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Oakfield |
| Y Cynghorydd Joel Williams | Buddiant Personol | Ysgol The Hollies |
| Y Cynghorydd Peter Wong | Buddiant Personol | Ysgol Uwchradd Cathays |
| Y Cynghorydd Peter Wong | Buddiant Personol | Ysgol Gynradd Parc y Rhath |
| Y Cynghorydd Dianne Rees | Buddiant Personol | Fel aelod o Gyngor Cymunedol Llaneirwg |
| Y Cynghorydd Joel Williams | Buddiant Personol | Fel aelod o Gyngor Cymunedol Llaneirwg |
| Y Cynghorydd Gavin Hill-John | Buddiant Personol | Fel aelod o Gyngor Cymunedol Pentyrch |
| Y Cynghorydd Rod McKerlich | Buddiant Personol | Fel aelod Gyngor Cymunedol Radur a Phentre-poeth |
| Y Cynghorydd Graham Thomas | Buddiant Personol | Fel aelod o Gyngor Cymunedol Sain Ffagan |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mike Jones-Pritchard | Buddiant Personol | Fel aelod o Gyngor Cymunedol Tongwynlais |
| Y Cynghorydd Linda Morgan | Buddiant Personol | Fel aelod o Gyngor Cymunedol Tongwynlais |
| Y Cynghorydd Jayne Cowan | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg |
| Y Cynghorydd Stephen Cunnah | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg |
| Y Cynghorydd Jane Henshaw | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg |
| Y Cynghorydd Keith Jones | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg |
| Y Cynghorydd Adrian Robson | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg |
| Y Cynghorydd Michael | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Bwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd |
| Y Cynghorydd Caro Wild | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Bwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Y Cynghorydd Sarah Merry | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Gwasanaethau Addysg Consortiwm Canolbarth y De |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Y Cynghorydd Michael | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i'r Cydbwyllgor Prosiect Gwyrdd |
| Y Cynghorydd Weaver | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i'r Cydbwyllgor Prosiect Gwyrdd |
| Y Cynghorydd Michael | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i'r Cydwasanaethau Rheoleiddio |
| Y Cynghorydd Mackie | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i'r Cydwasanaethau Rheoleiddio |
| Y Cynghorydd Hinchey | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gydbwyllgor Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Gavin Hill-John | Buddiant Personol | Fel Aelod Anweithredol a benodwyd i Fysiau Caerdydd |
| Y Cynghorydd Chris Lay | Buddiant Personol | Fel Aelod Anweithredol a benodwyd i Fysiau Caerdydd |
| Y Cynghorydd Emma Sandrey | Buddiant Personol | Fel Aelod Anweithredol a benodwyd i Fysiau Caerdydd |
| Y Cynghorydd Sarah Merry | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Fwrdd Caerdydd a'r Fro a CBAC |
| Y Cynghorydd Joe Boyle | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol |
| Y Cynghorydd Sarah Merry | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol |
| Y Cynghorydd Adrian Robson | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gynulliad Cyffredinol y Gymdeithas Llywodraeth Leol |
| Y Cynghorydd Dilwar Ali | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Dan De'Ath | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Saeed Ebrahim | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Joel Williams | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Russell Goodway | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sarah Merry | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Michael | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Cynghorydd Huw Thomas | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Lynda Thorne | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Christopher Weaver | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Buddiant Personol | Aelod o Ymddiriedolaeth Chwaraeon Caerau |
| Cynghorydd Naughton | Buddiant Personol | Mae aelod teulu yn derbyn Pensiwn gan Fysiau Caerdydd |
| Y Cynghorydd Naughton | Buddiant Personol | Ar hyn o bryd cyflogir aelod teulu gan gontractwr sy'n ymgymryd â gwaith ar safle ysgol ar gyfer Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Bowden | Buddiant Personol | Yn derbyn Gwasanaeth Teleofal y Cyngor |
| Y Cynghorydd Driscoll | Buddiant Personol | Fel prydleswr ar y cyd o Ased Cyngor |
| Y Cynghorydd Bale | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Bale | Buddiant Personol | Mae aelod teulu yn derbyn pensiwn gan Gyngor Caerdydd. |
| Y Cynghorydd Elsmore | Buddiant Personol | Fel aelod annibynnol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Y Cynghorydd Elsmore | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Simmons | Buddiant Personol | Aelod o Ymddiriedolaeth Chwaraeon Caerau |
| Y Cynghorydd Simmons | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Cowan | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Robson | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Williams | Buddiant Personol | Ar Fwrdd Rheoli Cartrefi Gofal Cartref |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Goddard | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Taylor | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson | Buddiant Personol | Fel aelod a benodwyd i Banel yr Heddlu a Throseddau |
| Y Cynghorydd Gibson | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd McEvoy | Buddiant Personol | Aelod o Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Y Cynghorydd McEvoy | Buddiant Personol | Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dilwar Ali | Buddiant Personol | Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Buddiant Personol | Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Buddiant Personol | Fel un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Stori Caerdydd |

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod gan y Prif Weithredwr fuddiant ariannol yn eitem 10, sef Penodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau a fyddai'n gadael y cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem.

123 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd ar 29 Tachwedd 2018, 31 Ionawr 2019 (canslwyd y cyfarfod) a chyfarfod Arbennig 14 Chwefror 2019 fel cofnodion cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

124 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cwestiwn Cyhoeddus 1 – *Mr Cadan ap Tomos*

***Beth wnaeth y Cyngor i annog y rhai sy'n ymweld â Chaerdydd, ar gyfer siopa Nadolig a gweithgareddau Nadoligaidd eraill, allan o'u ceir ac ar drafnidiaeth gyhoeddus?***

Ateb - *Y Cynghorydd Wild*

Bu'r Cyngor yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o foddau trafnidiaeth cynaliadwy dros gyfnod yr ŵyl.

Ymunodd tîm ymroddedig o swyddogion y Cyngor â chynrychiolwyr o'r sector manwerthu, Heddlu De Cymru, cwmnïau bysiau a gweithredwyr tacsis a fu'n gweithio'n agos drwy gydol cyfnod yr ŵyl i ddelio ag unrhyw broblemau a fyddai'n codi.

Roedd gwybodaeth am yr amserlen ar gael drwy nifer o fannau gwerthu, gan gynnwys Traveline Cymru a gwefannau Bysiau Caerdydd a Thrafnidiaeth i Gymru. Hefyd, cyhoeddodd Croeso Caerdydd ganllaw digwyddiadau Nadoligaidd sy'n

cyflenwi gwybodaeth am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a Pharc & Gwasanaethau marchogaeth.
Rydym hefyd yn darparu er mwyn i bobl deithio ar feic, gan gynnwys twf y cynllun Nextbike ac rydym wedi dyblu nifer y stondinau beic ar draws canol y ddinas.

Cwestiwn Atodol – *Mr Cadan ap Tomos*

Byddai unrhyw un yn dod i Gaerdydd yn y cyfnod cyn y Nadolig wedi bod mewn ciw hir iawn o geir yn aros i fynd i faes parcio, ac, a dweud y gwir, nid yw'n syndod o ystyried y wybodaeth deithio a oedd ar gael i ymwelwyr.

Mae gwefan y Cyngor ei hun yn canolbwyntio ar ddweud wrth bobl ble i barcio yn y ddinas heb fawr o sylw am sut i gyrraedd ar fws, trên neu Barcio a Theithio. Mae gwefan Gŵyl y Gaeaf ond yn rhoi gwybodaeth am barcio'n agos dim byd am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae gwefan y Farchnad Nadolig yn blaenoriaethu teithio mewn ceir a pharcio dros ddewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus, heb unrhyw sôn o gwbl am y gwasanaeth Parcio a Theithio ar gael. Mae hyn oll hefyd heb feddwl am ffyrdd mwy rhagweithiol o gyfathrebu â'r rhai sy'n dod o'r tu allan i'n dinas.

Dylai'r rhain fod wedi bod yn welliannau hawdd. Serch hynny, yn anffodus mae'n ymddangos bod y weinyddiaeth yn dal i hyrwyddo teithio mewn ceir fel yr opsiwn diofyn.

Sut yr ydych yn bwriadu datrys y pethau hyn ar gyfer y Nadolig nesaf ac ar gyfer cyfnodau prysur eraill y mae angen cyngor arbennig arnynt, a pha gamau rhagweithiol y byddwch yn eu cymryd i annog ymwelwyr o Gaerdydd i adael eu ceir gartref pan fyddant yn ymweld?

Ateb - *Y Cynghorydd Wild*

Er fy mod yn derbyn bod y traffig yn cronni yn ystod y gwyliau, traffig ceir hynny yw, rhaid i mi dderbyn eich gair ei fod cynddrwg ag yr ymddengys o ran y wybodaeth a oedd ar gael, oherwydd yr oedd y wybodaeth a welais yn sicr yn dangos llawer o wybodaeth yn cyfeirio pobl tuag at y gwahanol fathau o drafnidiaeth.

Gwn i ni agor y Parcio a Theithio ar ddyddiau Sul a bu'n rhaid i ni roi mwy o wasanaethau Parcio a Theithio oherwydd y galw am y gwasanaethau hynny.

O ran beth rydyn ni'n mynd i'w wneud wrth symud ymlaen, dydw i ddim am restru'r holl bethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud ar draws trafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas, gan y byddwch wedi gweld Papur Gwyrdd yn ddiweddar i wneud awgrymiadau ar bob math o ddulliau cynaliadwy. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon ystyried rhai o'r syniadau yr ydych wedi'u rhoi ac y byddwch efallai am eu rhoi yn y dyfodol, a byddaf yn codi'r rheini gyda Swyddogion.

Roedd Cwestiwn Cyhoeddus 2 gan Mr Gavin Brookman wedi'i dynnu'n ôl ar ei gais.

Cwestiwn Cyhoeddus 3 – *Rahema Zaman*

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod ein canolfannau hamdden yn gwasanaethu'r gymuned?

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i ddweud beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn y maes hwn. Mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod ei ganolfannau hamdden yn diwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac yn gweithio'n agos gyda GLL, ei bartner hamdden, i'r perwyl hwn.

Mae GLL yn adolygu'r rhaglen weithgareddau'n rheolaidd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned ehangach. Gellir cael tystiolaeth o hyn yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed drwy'r rhaglen 'Beth Am Symud', mewn partneriaeth â'r GIG, sy'n cefnogi adsefydlu ar ôl strôc. Yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain, mae'r Rhaglenni Pêl-rwyd Cerdded a Phêl-droed Cerdded hefyd yn cefnogi adsefydlu o'r fath.

Mae’r rhaglen #Cryfdermewnol wedi bod yn boblogaidd iawn, gan gynnig cyfle i ferched ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, yn ogystal â dysgu am iechyd a lles drwy weithdai a ddarperir gan gynghorwyr iechyd proffesiynol. Cynhelir y rhaglen hon yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain ac ehangwyd yn ddiweddar i gynnig gweithgareddau yn Hyb y STAR.

Mae ymrwymiad cryf hefyd i wella iechyd, lles a chyfleoedd ar draws cymunedau Caerdydd drwy gefnogi'r genhedlaeth nesaf o athletwyr drwy raglen sefydliad chwaraeon GLL. Mae'n gweithredu'n flynyddol ac, y llynedd, roedd 47 o athletwyr ifanc yn elwa o safbwynt ariannol a datblygiadol.

Ar ôl creu'r bartneriaeth â'r Cyngor, mae GLL wedi gallu dangos cynnydd mewn cyfraddau cymryd rhan ac aelodaeth. Cafwyd buddsoddiad sylweddol hefyd yn ein canolfannau hamdden ac, erbyn troad y flwyddyn ariannol newydd, bydd y portffolio hamdden wedi elwa ar werth £3.4 miliwn o fuddsoddiad, rhywbeth y gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n pleidleisio drosto heddiw.

Cipolwg yn unig yw hwn ac yn erbyn cefndir o hinsawdd ariannol hynod heriol, nid yn unig y mae ein canolfannau hamdden yn aros ar agor, ond hefyd gall y Cyngor ddangos ymrwymiad cryf i fuddsoddi yn y cynnig ac amrywiaeth y cynnig, er mwyn bodloni anghenion y gymuned.

Cwestiwn Atodol – *Rahema Zaman*

I roi ychydig o gyd-destun, dros y 25 mlynedd diwethaf rwyf wedi gallu mynd i nofio gyda fy mhlant ym mhwll nofio’r Maendy i'r sesiynau i fenywod yn unig. Fodd bynnag, ers i GLL gymryd drosodd, mae'r ddarpariaeth hon wedi'i herydu'n araf fel na all mamau fynd i nofio gyda'u merched bellach ym mhwll nofio’r Maendy. Ni all unrhyw un dan 16 oed fynychu'r sesiynau menywod yn unig.

A fydd yr Aelod Cabinet yn ystyried edrych i mewn i ailsefydlu'r sesiynau hyn ar gyfer merched ifanc gan fod fy merch yn siomedig dros ben na all fynd i nofio mwyach?.

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Mae'n ddrwg gennyf glywed am eich achos personol gyda Chanolfan Hamdden y Maendy ac wrth gwrs, rwy'n hapus iawn i gymryd ymlaen yr achos penodol hwnnw a siarad â GLL amdano.

Rhaid i GLL hefyd lynu wrth bolisi Iechyd a Diogelwch llym, sy'n elfen allweddol o ran defnyddio eu pyllau nofio a'u hesboniad yw bod eu polisi pwll nofio yn ei gwneud yn ofynnol i oedolyn sy'n nofiwr cymwys fynd gyda phob nofwyr dan 16 oed.  Felly, ni ddylent fod yn eich atal rhag mynd i nofio os ydych yn nofiwr cymwys yn y sesiynau i fenywod yn unig.

Rwy'n hapus i godi eich achos penodol gyda GLL a gobeithio y cewch y canlyniad yr ydych yn chwilio amdano.

125  :  DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

| **Cynghorydd** | **Nifer y llofnodion** | **Pwnc** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Hinchey | 335 | Galw ar Gyngor Caerdydd i roi pwysau ar Fysiau Caerdydd i beidio â thynnu gwasanaethau bws yn ôl – 51/53 ac 86 o ward y Mynydd Bychan |
| Y Cynghorydd Walker | 549 | Yn galw ar gyngor Caerdydd i roi pwysau ar Fysiau Caerdydd i beidio â thynnu gwasanaethau bws yn ôl o Lysfaen |
| Y Cynghorydd Driscoll | 170 | Galw ar gyngor Caerdydd i roi pwysau ar Fysiau Caerdydd i beidio â thynnu gwasanaethau bws yn ôl – 66 o ward Llandaf |

126  :  CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

<u>Cydymdeimladau</u>
Roedd yr Arglwydd Faer wedi anfon cydymdeimladau at weddw a theulu Cyn-gynghorydd Caerdydd, Robert (Bob) Smith, Cynghorydd Llanisien o Fehefin 2004 i Fai 2012 ac aelod gweithgar o'r Pwyllgorau Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd.

Bu farw'r Cyn-gynghorydd Dinas a Sir Frederick Herbert Yeomans ar 12 Chwefror 2019 yn 90 oed.  Bu'n gwasanaethu ar Gyngor y Ddinas o 1973-1979 a Chyngor Sir De Morgannwg o 1980 fel Cynghorydd ar gyfer wardiau Tredelerch a Llanrhymni.

Mae’r Cyn-gynghorydd Sir De Morgannwg a wasanaethodd y Ward Ganolog (rhan o Cathays) yn 1981 – 1989 hefyd wedi marw.

Digwyddiadau Dinesig
Mae'r adroddiad misol ar gyfer y Digwyddiadau Dinesig ers y cyfarfod diwethaf wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y cyfarfod hwn.

Codi Arian Elusennol yr Arglwydd Faer
Roedd yr Arglwydd Faer wrth ei fodd yn adrodd bod ei harian ar gyfer apêl Tiny Lives Noah’s Ark wedi cyrraedd £113,000, a thynnodd sylw'r Aelodau at ddigwyddiadau i ddod.

## 127 : PENODI SWYDDOG CANLYNIADAU A SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL

*(Roedd gan y Prif Weithredwr fuddiant ariannol yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod yn ystod ei ystyriaeth)*

Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar rolau'r Swyddog Canlyniadau a’r Swyddog Cofrestru Etholiadol, sydd wedi'u cyfuno a'u cyflawni gan un person yn y gorffennol. Mae pob rôl yn gyfrifoldeb personol, yn annibynnol ac ar wahân i'w dyletswyddau fel gweithiwr cyflogedig y Cyngor. Ar hyn o bryd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n gyfrifol am y rolau oherwydd ei phrofiad helaeth o waith etholiadol a chofrestru, er y nodir bod y mwyafrif helaeth o gynghorau yng Nghymru wedi penodi eu Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig i ymgymryd â'r ddwy rôl, sef sefyllfa a ffafrir yn gynyddol gan y Comisiwn Etholiadol ac a adlewyrchir yn eu trefniadau monitro perfformiad.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Robson, fod Prif Weithredwr y Cyngor yn ymgymryd â'r rolau hyn ar gyfer Cyngor Caerdydd ar ymddeoliad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â'r cynnig hwn.

PENDERFYNWYD y canlynol:

1. Cymeradwywyd penodiad y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer yr etholaethau a gynhwysir yn ardal Dinas a Sir Caerdydd, yn weithredol o 3 Ebrill 2019;

2. Cymeradwywyd penodiad y Prif Weithredwr fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymunedol o fewn ardal Dinas a Sir Caerdydd, yn weithredol o 3 Ebrill 2019.

## 128 : PREMIYMAU TRETH GYNGOR

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yr argymhelliad yn yr adroddiad i ddefnyddio pwerau disgresiwn ar gyfer premiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor. Roedd y cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd y llynedd.

Cydnabuwyd bod eiddo gwag a rhai wedi'u byrddio yn y ddinas yn cael effaith sylweddol ar gymunedau sydd â phroblemau tipio anghyfreithlon, niwsans,

fandaliaeth, gweithgarwch troseddol a dirywiad gweledol, sydd i gyd â'r potensial i gael effaith andwyol ar eiddo a thrigolion cyfagos.

Hefyd, mae eiddo gwag yn adnodd sy'n cael ei wastraffu yn sgil y galw sylweddol am dai yn y ddinas. Byddai'r cynnig hwn yn rhoi hwb i'r angen i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Eiliodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau yr adroddiad a thynnodd sylw at yr angen i sicrhau bod eiddo yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Mae eiddo yn aml yn wag ar gyfer amrywiaeth o faterion cymhleth. Roedd yn bwysig cydbwyso adnoddau mewn perthynas â'r galw am dai a byddai'r cynnig hwn, pe bai'n llwyddiannus, yn helpu i sicrhau bod eiddo yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y drafodaeth, ac yn gyffredinol croesawyd y cynnig fel ffordd o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn enwedig fel cartrefi i deuluoedd. Roedd rhai pryderon a gydnabuwyd gan yr Aelod Cabinet wedi'u codi ynghylch y broses ymgynghori - ei chadernid, ei dyfnder a'i chyrhaeddiad a phwysigrwydd ymgysylltu â mwy o bobl. Cydnabuwyd bod amrywiaeth o resymau dros y 1400 o eiddo gwag. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y gefnogaeth a roddir i landlordiaid ac ynghylch nifer yr eiddo preifat a rhai’r cyngor a adawyd yn wag am gyfnodau sylweddol.

PENDERFYNWYD: o’r 1 Ebrill 2019 bod y Cyngor yn cytuno i godi Premiwm Treth Gyngor o 50% ar anheddau sy’n wag a heb ddodrefn gan fwyaf am gyfnod sy’n hwy na 12 mis.

129 : CYNLLUN CORFFORAETHOL CYNGOR CAERDYDD 2019-22

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor y Cynllun Corfforaethol Newydd ar gyfer 2019-22, a oedd wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r broses o ddatblygu a phennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20. Roedd y cynllun yn cynrychioli uchelgeisiau a dyheadau'r gweinyddiaethau ar gyfer y brifddinas a phobl Caerdydd a Chymru. Y cynllun yw gweledigaeth, polisi a fframwaith cyflawni'r Cyngor a osodwyd o fewn cyd-destun sicrhau bod pawb yn elwa o lwyddiant y ddinas; gwelliannau parhaus mewn addysg a chyrhaeddiad mewn ysgolion; yr uchelgais o degwch a chyfiawnder cymdeithasol ar draws pob cymuned; wedi’u cydbwyso yn erbyn pwysau ariannol parhaus a difrifol o fewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ni wnaeth yr Arweinydd dderbyn y naill ddiwygiad na’r llall i'r adroddiad.

Eiliwyd y Cynllun Corfforaethol gan y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau, ailadroddodd y Cynghorydd Merry y blaenoriaethau’r weinyddiaeth er mwyn creu cyfleoedd; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, tlodi ac afiechyd, gweithredu ar ddigartrefedd a diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod diwygiadau i’r adroddiad yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 24A wedi cael eu cynnig.

Diwygiad 1
Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Robson i gynnig y diwygiad.

Dywedodd y Cynghorydd Robson fod y diwygiad yn ceisio disodli'r argymhelliad gyda'r canlynol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cabinet ystyried polisi ar sut y mae'n cynllunio ar gyfer y dreth gyngor yn y dyfodol

*Argymhellir bod y Cyngor hwn yn gohirio ystyried y Cynllun Corfforaethol tan gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cabinet i gyflwyno cynllun diwygiedig yn y cyfamser, sy'n cynnwys safbwynt clir i drigolion Caerdydd ynghylch cynlluniau'r weinyddiaeth ar gyfer lefelau'r Dreth Gyngor mewn blynyddoedd i ddod.*

Eiliodd y Cynghorydd Cowan y diwygiad.

Diwygiad 2
Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Boyle i gynnig y diwygiad.

Dywedodd y Cynghorydd Boyle fod y diwygiadyn ceisio disodli'r argymhelliad gyda'r canlynol, a oedd yn tynnu ar benderfynyddion cymdeithasol i wella'r newidiadau mewn bywyd a'r gwahaniaethau ar draws y ddinas yn y dyfodol.

*Argymhellir bod y Cyngor hwn yn gohirio ystyried y Cynllun Corfforaethol tan gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cabinet i gyflwyno cynllun diwygiedig yn y cyfamser sy'n mesur cynnydd y Cyngor wrth gau bwlch cydraddoldeb y ddinas drwy ddangosyddion perfformiad allweddol penodol ar gyfer :*

a) *gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd agored i niwed;*

b) *gwella deilliannau addysgol i blant PDdLlE;*

c) *lleihau anghydraddoldebau iechyd, a gwahaniaethau mewn disgwyliad oes, sy'n bodoli rhwng gwahanol gymunedau yng Nghaerdydd gan gynnwys rhwng y cymunedau mwyaf cyfoethog a'r rhai lleiaf cefnog.*

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar y Cynllun Corfforaethol. Yn ystod y ddadl gwnaed arsylwadau ynghylch:

- Yr uchelgais a'r targedau yn y Cynllun Corfforaethol ac y dylai Caerdydd fod yn ymdrechu i gyflawni mwy.
- Yr heriau i wasanaethau a blaenoriaethau allweddol megis ymyrraeth gynnar a phwysigrwydd y pyrth cymorth cynnar;
- cryfhau gwasanaethau ataliol a chymorth;
- pwysigrwydd cyfleoedd a chyrhaeddiad addysg i bob disgybl waeth beth fo'i gefndir;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn enwedig mewn iechyd a thlodi;
- mynd i'r afael â digartrefedd;
- datblygu strategaeth fwyd;
- gwell cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n cael gofal ac sy'n ymadael;
- cynyddu nifer y gofalwyr maeth;
- cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dyfodol;

- materion amgylcheddol megis lleihau allyriadau carbon; a newid yn yr hinsawdd a lleihau gwastraff;
- gweithio mewn partneriaeth ar y saith amcan.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Arweinydd i ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad cyntaf a gynigiwyd gan y Cynghorydd Robson.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr ail ddiwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Boyle.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad fel y cynigiwyd gan yr Arweinydd y Cynghorydd Huw Thomas.

ENILLWYD y bleidlais.

PENDERFYNWYD y canlynol:

1. Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2019-22;

2. Cymeradwyo bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i’r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i Gynllun Corfforaethol 2019-22 (Atodiad A) yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019 a chyn ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2019; a

Chymeradwyo bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i’r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i benderfynu ar addasiadau canlyniadol i’r Crynodeb Gosod Targedau Perfformiad 2019/20 (Atodiad B) yn dilyn canlyniadau perfformiad chwarter 4 2018/19.

130 : CYNIGION CYLLID 2019 - 2020

(*Nodwyd datganiadau o fuddiant gan yr Aelodau o dan erthygl 10 o God Ymddygiad yr Aelodau fel y nodir yng Nghofnod Rhif 126)*

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried a chymeradwyo Cynigion Cyllideb y Cabinet ar gyfer 2018-2019.

Roedd tri chynnig amgen i'r gyllideb wedi'u derbyn yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, roeddent yn cynnwys y cyngor angenrheidiol gan Swyddogion Statudol, ac roeddent wedi'u cylchredeg fel rhan o'r Daflen Ddiwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver i gynnig Cyllideb y Cabinet.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet y gyllideb weinyddu i'w chymeradwyo. Mae'r gyllideb fel y'i cynigiwyd yn cael ei phennu o fewn rhagolwg ariannol heriol a'i nod yw adeiladu ar egwyddorion Uchelgais Caerdydd a chadw ffocws ar berfformiad a gwasanaethau statudol; moderneiddio symleiddio gwasanaethau; gwneud y defnydd gorau o dechnoleg; creu incwm a datblygu partneriaethau a chysylltiadau cryfach yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Byddai'r gyllideb yn buddsoddi mewn blaenoriaethau craidd ar gyfer y ddinas - addysg a phobl ifanc, cynllunio sefydliadol ysgolion - projectau Band B; atgyweirio ysgolion; tai; y rhaglen hybiau cymunedol, seilwaith a rhwydwaith priffyrdd beicio; cyfleoedd swyddi ac economi a thwf; diogelu plant ac oedolion mwyaf agored i niwed y ddinas a chymryd camau i fynd i'r afael â digartrefedd.

Manylodd yr Aelod Cabinet y gyllideb arfaethedig i fynd i'r afael â'r bwlch o £32.4m. Roedd y rhain yn cynnwys arbedion cyfarwyddiaeth pellach gwerth £19,157m; tynnu i lawr ar gronfeydd wrth gefn a chynnydd net y dreth gyngor o 4.9%, a fyddai'n codi £6,745 miliwn. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ariannu Cyfalaf, a defnyddio'r Mecanwaith Cydnerthedd Ariannol ac asesu risg, yr holl ddulliau a ddefnyddir ym mhroses cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2019/20. Tynnodd sylw at Strategaeth y Gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod gyda'r angen i gynllunio ar gyfer arbedion o tua £105m dros y 3 blynedd nesaf.

Roedd yr Aelod Cabinet yn croesawu'r ffaith bod y gwelliannau yn cefnogi egwyddorion y gyllideb arfaethedig yn fras fodd bynnag; byddai defnyddio arian wrth gefn a chydnerthedd yn rhoi adnoddau'r Cyngor mewn perygl ac yn gwanhau ei wydnwch am flynyddoedd i ddod.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'w gyd-aelodau yn y Cabinet; Arweinwyr a llefarwyr y Grwpiau; Cadeiryddion Craffu, Aelodau, y Swyddog Adran 151, yr Uwch Reolwyr, a phawb sy'n ymwneud â dwyn ynghyd gynigion y gyllideb, a chymeradwywyd cynnig y Cabinet i'r Cyngor.

Eiliodd arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20.

Canolbwyntiodd yr Arweinydd ar egwyddorion allweddol Uchelgais Caerdydd o ran tegwch a chyfiawnder cymdeithasol, gan bontio'r bwlch rhwng y rhai mewn tlodi a'r rhai sy'n ffynnu o addysg, cyflogaeth a thwf yr economi. Mae buddsoddi mewn addysg; ysgolion a phobl ifanc yn flaenoriaeth yn ogystal â darparu mynediad i swyddi da, trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a hygyrch a chyflog byw

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y cynigydd a'r eilydd ar gyfer pob un o'r diwygiadau i symud eu cynnig yn ffurfiol a siarad.

Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Hill-John gynnig cyllideb amgen y Ceidwadwyr a siaradodd am y diwygiad. Eiliodd y Cynghorydd Robson y diwygiad a siaradodd.

Cynigiodd y Cynghorydd Berman gynnig cyllideb amgen y Democratiaid Rhyddfrydol, a siaradodd am y diwygiad. Eiliodd y Cynghorydd Boyle y diwygiad a siaradodd.

Cynigiodd y Cynghorydd McEvoy gynnig cyllideb amgen Plaid Cymru a siarad ar y diwygiad. Eiliodd y Cynghorydd Gibson y diwygiad a siaradodd.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar gynigion y Cabinet a'r tri chynnig amgen.

Cafwyd sylwadau gan Aelodau ar gynigion y gyllideb a'r diwygiadau a chodwyd nifer o faterion gan gynnwys lefel y cynnydd yn y dreth gyngor a'r angen am strategaeth glir ar gyfer y Dreth Gyngor yn y dyfodol a'r baich y bydd y cynnydd yn ei roi ar ddinasyddion. Soniodd yr Aelodau unwaith eto am y broses ymgynghori ac am ddyfnder yr ymatebion a'r ymgysylltu gwael â phobl ifanc.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod yr anawsterau o ran cwrdd â'r galw am wasanaethau oedolion a phlant a phwysigrwydd cefnogi ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, y gefnogaeth a ddarperir gan wasanaethau byw'n annibynnol a phwysigrwydd mynd i'r afael ag unigrwydd a rhoi cymorth i ddinasyddion sydd â dementia, lleoliadau y tu allan i'r sir. Croesawodd yr Aelodau yr ymrwymiad i fuddsoddi ymhellach mewn hybiau a llyfrgelloedd cymunedol.

Awgrymodd yr Aelodau ffyrdd o ddefnyddio adnoddau i wella canlyniadau, yn enwedig yng nghyswllt gwasanaethau cymorth ac ymyrraeth gynnar a chymorth i deuluoedd. Codwyd mater yr ardrethi busnes a'r dyraniad a roddwyd i Gaerdydd fel canolfan economaidd a phrifddinas Cymru.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd buddsoddi mewn pobl ifanc, addysg, anghenion dysgu ychwanegol; gwasanaethau ieuenctid; gwasanaethau maethu; y rhai sy'n gadael gofal, cyflogaeth a hyfforddiant; datblygu darpariaethau tai cymdeithasol fforddiadwy, cymorth ar gyfer y rhai sy'n cysgu ar y stryd a darparu llety diogel a hygyrch, yr angen i fynd i'r afael â thlodi a chefnogi Strategaeth Fwyd.

Bu'r Aelodau'n trafod buddsoddi mewn seilwaith – tyllau ffordd a chynlluniau traffig; hyrwyddo teithio llesol - cerdded a beicio; llwybrau diogel i ysgolion a chludiant i'r ysgol; a'r angen am gynnydd ar yr Orsaf Ganolog.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd adborth Craffu, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau economaidd a diwylliannol y ddinas mewn perthynas â rheolaeth treftadaeth a pharciau, twristiaeth a rheolaeth ganol y ddinas. Strategaeth gerddoriaeth a mwy o uchelgais. Materion amgylcheddol yn cynnwys dinasoedd glân a lleihau llygredd a gwastraff, mentrau ynni glân.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y defnydd o arian wrth gefn a chydnerthedd.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Aelodau am eu cyfraniad i'r ddadl a gwahoddodd yr Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver i ymateb i faterion a godwyd yn ystod y ddadl.

Cymerodd yr Arglwydd Faer y pleidleisiau fel a ganlyn:-

COLLWYD y bleidlais ar ddiwygiad y Ceidwadwyr a gynigiwyd gan y Cynghorydd Gavin Hill-John.

COLLWYD y bleidlais ar ddiwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Berman.

COLLWYD y bleidlais ar ddiwygiad Plaid Cymru gan y Cynghorydd McEvoy.

ENILLWYD y bleidlais ar yr argymhellion fel y'u cynigiwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Gymeradwyo'r cyllidebau Refeniw, Cyfalaf, Cyfrif Refeniw Tai gan gynnwys yr holl gynigion a chynyddu'r Dreth Gyngor gan 4.9% fel y nodir yn yr adroddiad hwn a bod y Cyngor yn cadarnhau'r termau canlynol. | | |
| 2. | Nodi y cyfrifodd y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2018 y nifer canlynol o anheddau ar gyfer y flwyddyn 2019/20 yn unol â rheoliadau Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:- | | |
| | (a) | 145,499 – sef y swm a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Llinell Waelod y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel isafswm y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn. | |
| | (b) | Llysfaen | 2,409 |
| | | Pentyrch | 3,280 |
| | | Radur | 3,783 |
| | | Sain Ffagan | 1,423 |
| | | Pentref Llaneirwg | 1,828 |
| | | Tongwynlais | 817 |
| | y rhifau a ddosbarthwyd yn unol â Rheoliad 6 fel swm llinell waelod Treth Gyngor y flwyddyn ar gyfer anheddau yn rhannau'r ardal y mae eitemau arbennig yn gysylltiedig â nhw. | | |
| 2.1 | Cytuno bod y symiau canlynol bellach yn cael eu cyfrif gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn 2019/20 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:- | | |
| | (a) | Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) (gan gynnwys archebiannau'r Cyngor Cymunedol sy'n £396,847). | |
| | | £1,026,008,847 | |
| | (b) | Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) a (c). | |
| | | £405,173,000 | |
| | (c) | Y swm y mae'r cyfanswm yn 2.1(a) yn fwy na'r cyfanswm yn 2.1(b) uchod a gyfrifwyd yn unol ag Adran 32(4) fel y gofyniad ar | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfer y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. | |
| | | £620,835,847 | |
| | (ch) | Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y cânt eu talu yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas â'r Grant Cynnal Refeniw, cynllun gostyngiad treth gyngor, Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu. | |
| | | £444,629,480 | |
| | (d) | Y swm ar 2.1(c) uchod ond gan dynnu swm 2.1(d) (net y swm ar gyfer rhyddhad diamod o £400,000), i gyd wedi'u rhannu gan y swm ar 2.0(a) uchod, wedi'i gyfrifo yn unol ag Adran 33(1) fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn. | |
| | | £1,213.80 | |
| | (f) | Cyfansymu swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1). | |
| | | £396,847 | |
| | (g) | Swm 2.1(e) uchod ond gan dynnu'r canlyniad a geir trwy rannu swm 2.1(f) uchod gan swm 2.0(a) uchod, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad oes eitemau arbennig yn berthnasol iddynt | |
| | | £1,211.07 | |
| | (h) | Y symiau a geir trwy ychwanegu at swm 2.1(g) uchod y symiau o eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir isod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan swm 2.0(b) uchod, wedi'u cyfrifo'n unol ag Adran 34(3) fel symiau sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt. | |
| | | | £ |
| | | Llysfaen | 1,227.26 |
| | | Pentyrch | 1,258.33 |
| | | Radur | 1,243.94 |
| | | Sain Ffagan | 1,225.48 |
| | | Pentref Llaneirwg | 1,231.31 |
| | | Tongwynlais | 1,236.77 |
| | (i) | Y symiau a geir trwy luosogi symiau 2.1(g) a 2.1(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Gwerthuso) 2003, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band gwerthuso penodol wedi'i rannu gan y rhif sydd, yn y gyfran hon, yn berthnasol i aneddiadau a restrir ym mand gwerthuso D wedi'i gyfrif yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau anheddau a restrir mewn bandiau gwerthuso gwahanol. | |

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llysfaen | 818.18 | 954.53 | 1090.89 | 1227.26 | 1499.98 | 1772.71 | 2045.42 | 2454.52 | 2863.60 |
| Pentyrch | 838.88 | 978.70 | 1118.51 | 1258.33 | 1537.95 | 1817.58 | 2097.21 | 2516.66 | 2936.09 |
| Radur | 829.29 | 967.51 | 1105.72 | 1273.94 | 1520.36 | 1796.80 | 2073.22 | 2487.88 | 2902.52 |
| Sain Ffagan | 816.98 | 953.15 | 1089.31 | 1225.48 | 1497.80 | 1770.13 | 2042.62 | 2450.96 | 2859.44 |
| Pentref Llaneirwg | 820.86 | 957.68 | 1094.49 | 1231.31 | 1504.93 | 1778.56 | 2052.17 | 2462.62 | 2873.05 |
| Tongwynlais | 824.50 | 961.93 | 1099.34 | 1236.77 | 1511.60 | 1786.44 | 2061.27 | 2473.54 | 2885.79 |
| Pob rhan arall o ardal y Cyngor | 807.37 | 941.94 | 1076.50 | 1211.07 | 1480.19 | 1749.32 | 2018.44 | 2422.14 | 2825.82 |

2.2 Nodi bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, ar gyfer y flwyddyn 2019/20, wedi dweud bod y symiau canlynol mewn archebiannau wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

**BANDIAU GWERTHUSO**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| 171.68 | 200.29 | 228.91 | 257.52 | 314.75 | 371.97 | 429.20 | 515.04 | 600.88 |

2.3 Wedi cyfrif y cyfanswm ym mhob achos y symiau ar 2.1(i) a 2.2 uchod, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2019/20 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

**BANDIAU GWERTHUSO**

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llysfaen | 989.84 | 1154.82 | 1319.80 | 1484.78 | 1814.73 | 2144.68 | 2474.62 | 2969.56 | 3464.48 |
| Pentyrch | 1010.56 | 1178.99 | 1347.42 | 1515.85 | 1852.70 | 2189.55 | 2526.41 | 3031.70 | 3536.98 |
| Radur | 100.96 | 1167.80 | 1334.63 | 1501.46 | 1835.11 | 2168.77 | 2502.42 | 3002.92 | 3503.40 |
| Sain Ffagan | 988.66 | 1153.44 | 1318.22 | 1483.83 | 1819.68 | 2150.53 | 2481.37 | 2977.66 | 3473.93 |
| Pentref Llaneirwg | 992.54 | 1157.97 | 1323.40 | 1488.83 | 1819.68 | 2150.53 | 2481.37 | 2977.66 | 3473.93 |
| Tongwynlais | 996.18 | 1162.22 | 1328.25 | 1494.29 | 1826.35 | 2158.41 | 2490.47 | 2988.58 | 3486.67 |
| Pob rhan arall o ardal y Cyngor | 979.05 | 1142.23 | 1305.41 | 1468.59 | 1794.94 | 2121.29 | 2447.64 | 2937.18 | 3426.70 |

2.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i wneud taliadau dan

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adran 38 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 o Gronfa'r Cyngor trwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2018 mewn perthynas â'r archebiant a godwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru sef £37,469,009. | | |
| 2.5 | Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r Dreth Gyngor ddywededig. | | |
| 2.6 | Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r archebiannau ar gyfer Treuliau Iechyd Porthladd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019 sef | | |
| | | | £ |
| | Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd | | 113,864 |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | | 12,736 |
| 2.7 | Cytuno bod hysbysiadau o greu'r Trethi Cyngor dywededig wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992. | | |
| 3. | Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, Rheoliadau Awdurdod Lleol (Arian Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 a'r diwygiadau olynol a Chod Cynghori CIPFA a Chodau Ymarfer Rheoli'r Trysorlys: | | |
| | (a) | Cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2019/20 | |
| | (b) | Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019/20 ac awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i godi arian y mae ei angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyg dros dro neu'n hirdymor | |
| | (c) | Cymeradwyo'r Dangosyddion Cynghori ar gyfer 2019/20 i 2023/24, yn cynnwys yr uchafswm benthyg fforddiadwy | |
| | (ch) | Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 symud rhwng yr uchafsymiau ar gyfer benthyg a'r dyledion hirdymor mewn unrhyw flwyddyn a symud dyddiadau cynlluniau yn y Rhaglen Cyfalaf ymlaen neu'n ôl. | |
| | (d) | Cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiaf ar gyfer 2019/20. | |
| 4. | Cymeradwyo'r Fframwaith Cyllidol yn yr adroddiad hwn, yn cynnwys yr Amlen Fforddiadwy a fanylir yn yr adroddiad hwn. Bydd hyn yn amodol ar gymeradwyo achos busnes dros yr arena dan do a goblygiadau ariannol penderfyniad felly o ran y goblygiadau fforddiadwyedd a benthyg a nodir. | | |
| 5. | Cynnal y Cynllun Gostwng y Dreth Gyngor fel y nodir yn yr adroddiad. | | |

131 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

132 : PENODIADAU I'R PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo enwebiadau i Fysiau Caerdydd yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol ac fel yr adroddwyd ar y ddalen diwygiadau i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag ar y Pwyllgor yn unol â dymuniadau Grŵp y Blaid:

| **Pwyllgor** | **Penodiad** |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | Y Cynghorydd Susan Goddard<br>Y Cyng. Joel Williams |
| Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol | Y Cynghorydd Sean Driscoll |
| Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor | Y Cynghorydd Chris Lay |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd Chris Lay |
| Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd Bowen-Thomson<br>Y Cynghorydd Kathryn Kelloway |
| Diogelu'r Cyhoedd | Y Cynghorydd Elaine Simmons |
| Y Pwyllgor Cynllunio | |
| Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc | Y Cynghorydd Stephen Cunnah |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedau ac Oedolion | Gwag |
| Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad | Gwag |
| Gweithgor Caerdydd Ddwyieithog | Gwag |
| Fforwm Iechyd a Diogelwch | Y Cynghorydd Graham Hinchey |

133 : PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo enwebiadau i Fysiau Caerdydd yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol ac fel yr adroddwyd ar y ddalen diwygiadau i'r Cyngor.

Penderfynwyd – bod y penodiadau canlynol yn cael eu cadarnhau fel cyfarwyddwyr anweithredol ar Fysiau Caerdydd: - Y Cynghorwyr Gavin Hill-John, Owen Jones Chris Lay, Emma Sandrey a Kanaya Singh

134 : PENDERFYNIAD BRYS: YMYRRAETH YSGOL GYNRADD GATHOLIG PEDR SANT

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

135 : PENDERFYNIAD BRYS: CERBYDAU'R GWASANAETHAU STRYD

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 21.25pm)*